# Amlinelliad Cymhwyster UG a Safon Uwch Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg o'r cymhwyster CBAC UG a Safon Uwch Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru. **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE). Mae'n bosibl y bydd angen ailedrych ar agweddau ar yr amlinelliad os bydd materion yn codi yn ystod y broses ddatblygu.

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i gynllunio i gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru a nodir yn *Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025*, drwy ddatblygu siaradwyr hyderus, rhugl sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn eu bywydau personol, cymdeithasol a phroffesiynol.

Pwrpas y cymhwyster hwn yw:
- datblygu siaradwyr Cymraeg rhugl ac hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith yn briodol ac yn effeithiol mewn ystod o gyd-destunau
- ymestyn gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau dysgwyr mewn sefyllfaoedd dilys, bywyd go iawn
- hyrwyddo hyder a chymhwysedd wrth gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- annog dinasyddiaeth weithredol a meithrin balchder yn yr iaith, diwylliant a hunaniaeth Gymraeg
- datblygu’r sgiliau ieithyddol a throsglwyddadwy sydd eu hangen i gyfrannu at ddyfodol Cymru mewn cymunedau a gweithleoedd dwyieithog.



© WJEC CBAC Ltd.

# Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

Bydd y cymhwyster yn cynnwys pum uned.

| Unedau Uwch Gyfrannol |
|---|
| **Uned 1: Y Ffilm neu'r Ddrama a Llafaredd**<br>Arholiad Llafar<br>Hyd at 45 munud<br>20% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC |
| **Uned 2: Archwilio Iaith**<br>Arholiad Ysgrifenedig<br>1 awr 30 munud<br>20% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC |

| Unedau Safon Uwch (yr uchod a thair uned ychwanegol) |
|---|
| **Uned 3: Y Nofel a Llafaredd**<br>Arholiad Llafar<br>Hyd at 45 munud<br>20% o'r cymhwyster<br>Wedi'i farcio gan CBAC |
| **Uned 4: Tasgau Di-Arholiad**<br>Asesiad di-arholiad<br>20% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod gan CBAC, farcio gan y ganolfan a'i gymedroli gan CBAC |
| **Uned 5: Y Gymraeg mewn Cyd-destun**<br>Arholiad Ysgrifenedig<br>Hyd at 2 awr<br>20% o'r cymhwyster<br>Wedi'i osod a'i farcio gan CBAC |

Bydd pob uned yn targedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoliadau a nodir o fewn y goddefgarwch o +/- 5 pwynt canran:

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | **Deall ac ymateb**<br>Ymateb yn feirniadol ac yn gydlynol i amrywiaeth o destunau llafar, ysgrifenedig a gweledol trwy ddewis a dehongli deunydd perthnasol.<br>i. Coladu, gwerthuso a chynnig sylwadau ar ffynonellau gwybodaeth, croesgyfeirio'n briodol a chrynhoi a dod i gasgliadau ystyrlon.<br>ii. Dangos gwybodaeth am destunau/pynciau penodol ac arwyddocâd eu cefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol, gan ddefnyddio dadansoddiad beirniadol a gwerthuso dehongliadau eraill. | 50% |



© WJEC CBAC Ltd.

| | | |
|---|---|---|
| | iii. Rhyngweithio ac ymateb i eraill ac ystyried eu cyfraniadau a'u safbwyntiau | |
| **AA2** | **Cyfathrebu a mynegiant**<br>i. Cyfathrebu'n gywir, yn glir ac mewn modd strwythuredig, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol.<br>ii. Defnyddio gwybodaeth am ramadeg yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau.<br>iii. Cyfathrebu gan ddefnyddio cyweiriau ieithyddol amrywiol a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ac ar gyfer gwahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd.<br>iv. Datblygu safbwyntiau a syniadau perthnasol, crynhoi a dod i gasgliadau. | 50% |

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Nid oes unrhyw hierarchaeth yn y drefn y mae'r unedau'n cael eu cyflwyno. Nid yw'r drefn yn awgrymu trefn addysgu'r unedau.

Bydd unedau UG ar gael o 2028.  Bydd unedau Safon Uwch ar gael o 2029.



© WJEC CBAC Ltd.

# Gwybodaeth am Unedau

Mae cyfeiriadau at Amcanion Asesu (AA) ym mhob uned wedi'u cynnwys er gwybodaeth. Gwneir penderfyniadau ynghylch union bwysoliadau a pha linynnau o'r AA sy'n cael eu targedu yn ystod y datblygiad manwl.

## Uned 1 – Y Ffilm neu'r Ddrama a Llafaredd

**Pwrpas yr uned hon yw datblygu gallu dysgwyr i:**
- ddeall ac ymateb yn feirniadol i destun
- ddewis a gwerthuso pwyntiau perthnasol i egluro a chefnogi dehongliadau
- ddangos gwybodaeth am destun penodol ac arwyddocâd ei gefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
- gyfathrebu'n gywir, yn glir ac mewn modd strwythuredig, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol
- ryngweithio ac ymateb i eraill ac ystyried eu cyfraniadau a'u safbwyntiau.

Gall canolfannau ddewis i astudio ffilm **neu** ddrama osod. Caiff y testunau gosod eu dewis gan CBAC. Y ddau destun gosod fydd:
- Ffilm – *Y Sŵn*
- Drama – *Blodeuwedd* (testun print fydd y testun gosod, ond mae recordiad o berfformiad Theatr Cymru ar gael i ganolfannau fel adnodd addysgol ychwanegol. Mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi '*rhaid i'r ddrama fod ar gael i'w hastudio fel testun gweledol ac ysgrifenedig*').

Bydd disgwyl i ymgeiswyr i:

**Ffilm:**
- drafod cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd
- drafod golygfeydd allweddol
- fanylu ynghylch y defnydd o lun a sain neu gerddoriaeth gefndirol
- drafod bwriadau'r awdur a'r cynhyrchydd
- fynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith
- drafod themâu a geir yn y ffilm
- drafod cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol.

**Drama:**
- drafod cymeriadau, olrhain eu datblygiad a chymharu cymeriadau â'i gilydd
- drafod golygfeydd allweddol
- fanylu ynghylch y defnydd o ddeialog ac adeiladwaith y ddrama
- drafod bwriadau'r dramodydd
- fynegi barn ac ymateb i'r gwaith fel cyfanwaith
- drafod themâu a geir yn y ddrama
- drafod cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad llafar a fydd ar gael o gyfres haf 2028 ymlaen.

Bydd yr uned yn werth 20% o'r cymhwyster. Bydd yr uned yn asesu AA1 ac AA2 yn hafal. Arholir ymgeiswyr gan arholwr ymweld mewn parau neu grwpiau o dri. Hyd at 45 munud fydd hyd yr arholiad.



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 2 – Archwilio Iaith

**Pwrpas yr uned hon yw datblygu gallu dysgwyr i:**
- wneud cymariaethau ac egluro cysylltiadau o fewn a rhwng testunau ysgrifenedig
- egluro sut mae iaith, strwythur a ffurf yn cyfrannu at gyflwyno gwybodaeth, syniadau a themâu mewn testunau ysgrifenedig a sut mae'r rhain yn effeithio ar y darllenydd
- drefnu cyfathrebu gan ddefnyddio amrywiaeth o nodweddion ieithyddol a strwythurol
- addasu cyfathrebu trwy ddewis cywair, geirfa a thechnegau sy'n briodol i wahanol gyd-destunau a chynulleidfaoedd
- ddefnyddio iaith ar gyfer ystod o bwrpasau.

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2028 ymlaen. Caiff yr arholiad ei osod a'i farcio gan CBAC.

O fewn Adran A, bydd pecyn o destunau gosod anllenyddol wedi'u dewis gan CBAC. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried detholiadau o gyfrol *Stori'r Iaith*, a olygwyd gan Ceri Wyn Jones. Rydym yn rhagweld mai hyd at chwe thestun gosod anllenyddol fydd angen i ymgeiswyr eu hastudio o fewn yr uned hon. Bydd testun(au) llenyddol ac anllenyddol nas gwelwyd o'r blaen yn cael eu cynnwys yn yr arholiad yn ogystal. Cyflwyno dysgwyr i'r ffyrdd y mae siaradwyr ac awduron yn defnyddio iaith i lunio ystyr at wahanol gynulleidfaoedd, dibenion a chyd-destunau fydd ffocws yr adran hon.

O fewn Adran B bydd disgwyl i ymgeiswyr gwblhau tasg(au) golygu. Byddwn yn parhau i adolygu'r tasgau hyn yn ystod y broses ddatblygu, ond rydym yn rhagweld y byddant yn ffocysu ar gywiro testun(au) anllenyddol.

Rydym yn rhagweld mai 1 awr 30 munud fydd hyd yr arholiad.

Bydd yr uned yn werth 20% o'r cymhwyster. Bydd yr uned yn asesu AA1 ac AA2 yn hafal.



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 3 – Y Nofel a Llafaredd

**Pwrpas yr uned hon yw datblygu gallu dysgwyr i:**
- ddeall ac ymateb yn feirniadol i destun
- ddewis a gwerthuso pwyntiau perthnasol i egluro a chefnogi dehongliadau
- ddangos gwybodaeth am destun penodol ac arwyddocâd ei gefndir cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol, gan ddefnyddio dadansoddiad beirniadol a gwerthuso dehongliadau eraill
- gyfathrebu'n gywir, yn glir ac mewn modd strwythuredig, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol
- ryngweithio ac ymateb i eraill ac ystyried eu cyfraniadau a'u safbwyntiau.

Bydd canolfannau'n astudio nofel ôl-1990 osod. Caiff y testunau gosod eu dewis gan CBAC. Bydd dewis o bedair neu bum nofel osod. Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried y nofelau canlynol:
- *Bechgyn Drwg am Byth* Llwyd Owen
- *Dadeni* Ifan Morgan Jones
- *Martha, Jac a Sianco* Caryl Lewis
- *Dan Gadarn Goncrit* Mihangel Morgan
- *Llanw* Manon Steffan Ros
- *Nelan a Bo* Angharad Price
- *Y Dŵr* Lloyd Jones

Bydd ymgeiswyr yn ymdrin â phynciau megis y rhai a ganlyn:
- arwyddocâd digwyddiadau
- cymeriadaeth
- perthynas pobl â'i gilydd
- arddull
- themâu
- y darlun o'r gymdeithas a'r cyfnod lle bo hynny'n briodol
- agwedd yr awdur at fywyd fel y'i cyflwynir trwy ei waith.

Bydd elfen synoptig i'r uned hon a fydd yn cynnig cyfleodd i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau priodol rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc. Bydd disgwyl i ymgeiswyr ystyried dehongliadau eraill. Gall rhain gynnwys ymatebion gan feirniad llenyddol a chyfeiriadau at destunau llenyddol ac anllenyddol y maent wedi ymgysylltu â nhw yn annibynnol. Gall y testun(au) anllenyddol fod yn destunau ysgrifenedig, gweledol a/neu glywedol.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad llafar a fydd ar gael o gyfres haf 2029 ymlaen.

Bydd yr uned yn werth 20% o'r cymhwyster. Bydd yr uned yn asesu AA1 ac AA2 yn hafal.

Arholir ymgeiswyr gan arholwr ymweld mewn parau neu grwpiau o dri. Hyd at 45 munud fydd hyd yr arholiad.



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 4 – Tasgau Di-Arholiad

**Pwrpas yr uned hon yw datblygu gallu dysgwyr i:**

- ymateb yn feirniadol ac yn gydlynol i amrywiaeth o destunau trwy ddewis a dehongli deunydd perthnasol
- goladu gwerthuso a chynnig sylwadau ar ffynonellau gwybodaeth, croesgyfeirio'n briodol a chrynhoi a dod i gasgliadau ystyrlon
- ysgrifennu'n greadigol ac yn ffeithiol
- gyfathrebu'n gywir, yn glir ac mewn modd strwythuredig, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol
- drawsieithu.

Bydd tair tasg o fewn yr uned hon. Bydd gwahanol lefelau o reolaeth ar gyfer gwahanol dasgau yn yr uned hon yn dibynnu ar eu natur.

### Tasg 1 – Barddoniaeth

Bydd CBAC yn dewis detholiad eang o gerddi gosod o wahanol gyfnodau (6ed Ganrif – 21ain Ganrif) mewn amrywiaeth o fesurau. Byddant wedi'u rhannu i bedair colofn.

Bydd y golofn gyntaf o gerddi yn un gorfodol; bydd disgwyl i ganolfannau astudio'r holl gerddi yn y golofn hon. Ar hyn yn o bryd, rydym yn ystyried cynnwys y cerddi canlynol yn y golofn hon:

- *Cilmeri* Gerallt Lloyd Owen (detholiad penodol)
- *Atgof* Gwynfor Dafydd (detholiad penodol)
- casgliad o englynion o gyfnodau gwahanol

Bydd y colofnau eraill o gerddi wedi'u rhannu i gyfnodau gwahanol. Bydd un golofn yn cynnwys cerddi'r 6eg Ganrif – 10fed Ganrif, un arall yn cynnwys cerddi'r 15fed Ganrif – 16eg Ganrif ac un yn cynnwys cerddi'r 17eg Ganrif – 21ain Ganrif. Rydym yn rhagweld y bydd dewis o bum neu chwe cherdd ym mhob un o'r colofnau yma ac y bydd canolfannau yn dewis un gerdd o bob colofn.

Bydd CBAC naill a'i yn gosod cwestiwn penodol ar gyfer y dasg hon, neu'n awgrymu cyfres o gwestiynau enghreifftiol y bydd modd i ganolfannau eu haddasu.

Wrth ymateb yn bersonol, disgwylir i ymgeiswyr drin materion fel y rhai a ganlyn:

- themâu a syniadaeth
- crefft
- cyfrwng mydryddol
- ieithwedd
- troadau a ffigurau ymadrodd
- agwedd y bardd at fywyd.

Disgwylir mai rhwng 2,000 – 3,000 o eiriau fydd hyd y dasg.

### Tasg 2 – Ysgrifennu Estynedig

Bydd disgwyl i ymgeiswyr ysgrifennu darn estynedig ar un o'r ffurfiau canlynol:

- stori fer



© WJEC CBAC Ltd.

- pennod gyntaf nofel
- dyddiadur
- ymson
- cyfres o flogiau
- portread
- darn o hunangofiant
- sgript yn seiliedig ar stori fer ar gyfer llwyfan neu deledu neu radio
- erthygl olygyddol neu ysgrif i bapur newydd neu gylchgrawn
- adroddiad newyddiadurol

Byddwn yn ail ymweld â'r ffurfiau yma yn ystod y broses ddatblygu.

Disgwylir mai rhwng 1,000 – 2,000 o eiriau fydd hyd y dasg.

**Tasg 3 – Ymchwilio a Mynegi Barn**

Bydd ymgeiswyr yn llunio traethawd neu araith ysgrifenedig, addas i'w thraddodi, yn cyflwyno barn neu safbwynt.

Yn y dasg hon disgwylir bod ymgeiswyr wedi ymchwilio i'r testun a ddewisir ganddynt a'u bod yn medru defnyddio ffynonellau clywedol, gweledol ac/neu ysgrifenedig dwyieithog a chroesgyfeirio rhyngddynt wrth fynegi barn ar y testun. Disgwylir eu bod yn medru pwyso a mesur safbwyntiau a dod i gasgliadau.

Disgwylir mai rhwng 1,000 – 2,000 o eiriau fydd hyd y dasg.

Dylid sicrhau nad yw'r un pwnc yn cael ei drafod yn nhasg 2 a thasg 3.

Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy waith di-arholiad a fydd ar gael o gyfres haf 2029 ymlaen. Caiff yr uned ei marcio gan y canolfannau a'i chymedroli gan CBAC.

Bydd yr uned yn werth 20% o'r cymhwyster. Bydd yr uned yn asesu AA1 ac AA2 yn hafal ar draws yr uned.



© WJEC CBAC Ltd.

## Uned 5 – Y Gymraeg mewn Cyd-destun

**Pwrpas yr uned hon yw datblygu gallu dysgwyr i:**

- ymateb yn feirniadol ac yn gydlynol i destun ysgrifenedig trwy ddewis a dehongli deunydd perthnasol
- ddeall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa a chyd-destun wrth gyfathrebu
- gyfathrebu'n gywir, yn glir ac mewn modd strwythuredig, gan ddangos amrywiaeth o nodweddion ieithyddol
- gyfathrebu gan ddefnyddio cyweiriau ieithyddol amrywiol a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ac ar gyfer gwahanol bwrpasau a chynulleidfaoedd
- ysgrifennu'n ffeithiol.

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad arholiad ysgrifenedig a fydd ar gael o gyfres haf 2029 ymlaen. Caiff yr arholiad ei osod a'i farcio gan CBAC.

O fewn Adran A bydd disgwyl i ymgeiswyr ysgrifennu darn ar un o'r ffurfiau isod. Wrth ysgrifennu, disgwylir iddynt fod yn ymwybodol o'r cywair a'r gynulleidfa sy'n briodol i'r dasg:

- bwletin newyddion
- prif eitem newyddion
- datganiad i'r wasg
- cofnodion cyfarfod
- adroddiad i bapur newydd
- cyfarwyddiadau
- anerchiad.

Byddwn yn ail ymweld â'r ffurfiau yma yn ystod y broses ddatblygu.

Yn yr arholiad rhoddir deunydd darllen megis ffeithiau, ystadegau, nodiadau a.y.b. a fydd yn sail i'r ysgrifennu. Bydd rhyddid gan yr ymgeiswyr i ymhelaethu neu ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir os yw'n briodol i wneud hynny.

O fewn Adran B bydd disgwyl i ymgeiswyr gwblhau tasg(au) golygu. Byddwn yn parhau i adolygu natur y tasgau hyn yn ystod y broses ddatblygu, ond rydym yn rhagweld mai ffocysu ar wella a/neu grynhoi testun(au) anllenyddol bydd natur y dasg(au).

Rydym yn rhagweld mai hyd at 2 awr fydd hyd yr arholiad, ond byddwn yn parhau i adolygu hyn yn ystod y broses ddatblygu.

Bydd yr uned yn werth 20% o'r cymhwyster. Bydd yr uned yn asesu AA1 ac AA2 yn hafal.



© WJEC CBAC Ltd.

# Rhesymeg

Wrth ddatblygu'r amlinelliad cymhwyster arfaethedig hwn, rydym wedi ystyried hydrinedd gafaelgarwch, dilysrwydd a dibynadwyedd, a sut i gydbwyso'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion Adroddiad Penderfyniadau Cymwysterau UG a Safon Uwch yn y Gymraeg a Meini Prawf Cymeradwyo (MPC) Cymwysterau Cymru (CC).

### Uned 1

Mae MPC UG a Safon Uwch mewn Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn nodi:

- rhaid asesu cyfanswm o 40% o'r cymhwyster drwy arholiadau llafar, sy'n cael eu gosod a'u marcio gan CBAC
- rhaid i arholiadau llafar gael eu hasesu gan arholwr allanol wyneb yn wyneb
- rhaid cynnwys arholiadau llafar fel rhan o'r unedau UG ac U2
- rhaid i arholiadau llafar dargedu'r ddau amcan asesu
- rhaid i'r arholiad llafar yn y cymhwyster UG asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddrama neu'r ffilm
- ni ddylai'r un o'r arholiadau llafar yn y cymwysterau UG a Safon Uwch ei gwneud yn ofynnol i fwy nag un testun gosod gael ei astudio'n llawn.

I fodloni'r gofynion hyn, bydd Uned 1 ar ffurf arholiad llafar gwerth 20% o'r cymhwyster cyffredinol a bydd yn cael ei asesu gan arholwr allanol.

Bydd gofyn i ymgeiswyr archwilio ac astudio'r ffilm *Y Sŵn* neu'r ddrama *Blodeuwedd*. Mae'r testunau hyn yn disodli'r testunau gosod cyfredol. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu adborth o Adroddiad Penderfyniadau CC sy'n nodi bod angen diweddaru a moderneiddio'r cynnwys i wella perthnasedd y cymhwyster. Mae'r testunau newydd hefyd yn cysylltu â'r MPC trwy gynnig cyfle i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru a chyfle i ddatblygu dealltwriaeth o ddatblygiad, statws a defnydd yr Iaith Gymraeg.

### Uned 2

Yn unol â'r MPC, mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i astudio ystod o destunau llenyddol ac anllenyddol, ac i ddeall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa a chyd-destun wrth gyfathrebu. Law yn llaw â hyn, cyniga gyfle i ddatblygu sgiliau ysgrifennu ffeithiol dysgwyr. Mae'r dasg(au) golygu yn cynnig cyfleoedd pellach i ddysgwyr ddeall statws a defnydd yr iaith Gymraeg mewn gwlad ddwyieithog, ac i weld arwyddocâd eu cyfraniad at gymuned, cymdeithas a gweithle dwyieithog.

### Uned 3

Yn ogystal â'r gofynion ynghylch asesiadau llafar a nodir yn Uned 1, mae'r MPC hefyd yn nodi:

- rhaid i'r arholiad llafar yn uned U2 asesu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r testun rhyddiaith gyfoes a rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth drwy wneud cysylltiadau priodol rhwng gwahanol agweddau ar y pwnc
- rhaid i arholiadau llafar ar draws y cymhwyster gynnwys cyfleoedd i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys llenyddol ac anllenyddol (nid oes rhaid i bob arholiad llafar gynnwys y ddau).

I fodloni'r gofynion hyn, bydd Uned 3 ar ffurf arholiad llafar sy'n werth 20% o'r cymhwyster cyffredinol. Yn unol â'r MPC bydd yr uned hon yn cael ei hasesu gan arholwr ymweld. Bydd gofyn i ymgeiswyr archwilio ac astudio nofel ôl-1990 a ddewisir o restr benodol a osodwyd gan CBAC. Mae'r testunau hyn yn disodli'r testunau gosod cyfredol, er y gall rhai o'r testunau cyfredol fod ar gael o fewn y cymhwyster newydd hwn os ydynt yn bodloni gofynion y MPC. Bydd gofyn i ymgeiswyr gyfeirio at destunau eraill ac ystyried dehongliadau eraill gan gynnwys rhai beirniaid llenyddol.



© WJEC CBAC Ltd.

### Uned 4

Ar gyfer Tasg 1 - Barddoniaeth, bydd cwestiwn penodol neu ddewis o gwestiynau yn cael eu rhyddhau'n flynyddol. Bydd y cwestiwn neu'r dewis o gwestiynau yn cael eu rhyddhau ym mis Mehefin bob blwyddyn, a dylai ddarparu digon o amser i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol. Mae canolfannau hefyd yn debygol o ystyried dechrau'r uned hon yn nhymor yr haf y flwyddyn gyntaf, felly ystyrir bod mis Mehefin yn amser priodol ar gyfer rhyddhau'r cwestiwn/cwestiynau.

Bydd tair tasg o fewn yr uned hon. Bydd gwahanol lefelau o reolaeth ar gyfer gwahanol dasgau yn dibynnu ar eu natur. Mae angen elfen o reolaeth uchel i helpu i sicrhau lefel o uniondeb, tegwch, dilysrwydd a dibynadwyedd. Fodd bynnag, ystyrir bod rheolaethau is yn briodol ar gyfer y dasg greadigol gan mai pwrpas y dasg hon yw annog gwreiddioldeb a chreadigrwydd.

Mae’r dair dasg yn cysylltu â’r MPC drwy gynnig cyfleodd i ddysgwyr ysgrifennu’n greadigol ac yn ffeithiol, defnyddio iaith ar gyfer ystod o bwrpasau ymarferol, gan gynnwys trawsieithu a dadansoddi’n feirniadol a chyfleu ymateb personol i amrywiaeth o destunau.

### Uned 5

Yn unol â'r MPC, mae'r uned hon yn galluogi dysgwyr i ysgrifennu’n ffeithiol, defnyddio iaith ar gyfer ystod o bwrpasau, gan gynnwys golygu ac i ddeall arwyddocâd pwrpas, cynulleidfa a chyd-destun wrth gyfathrebu.

Mae’r dasg arfaethedig ar gyfer Adran A eisoes yn dasg o fewn arholiad Uned 6: Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a’r Gymraeg mewn Cyd-destun y cymhwyster Safon Uwch cyfredol. Mae athrawon a dysgwyr wedi nodi perthnasedd y dasg a’r ffaith ei bod yn datblygu sgiliau gwaith gwerthfawr ac felly rydym yn awyddus iawn i’w chynnwys yn y cymhwyster newydd.

Mae Adran B yn cysylltu a’r MPC drwy gynnig cyfleodd pellach i adeiladu ar allu dysgwyr i ddefnyddio iaith at amrywiaeth o bwrpasau ymarferol, gan ystyried y pwrpas a’r gynulleidfa.



© WJEC CBAC Ltd.